OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2880 (Cy.253)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*27 Hydref 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*29 Hydref 2009*
Yn dod i rym - -	*20 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), (26)(1)(a) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), cafwyd ymgynghori cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod y cyfnod yr oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 20 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "*food*") gan O.S. 2004/2900. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21, yn ôl eu trefn, o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990.
Mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "t*he Ministers*" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd, yn ôl eu trefn, yn ymwneud â bwyd ac iechyd yng Nghymru, ag iechyd yn Lloegr ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) yn arferadwy bellach yn Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Cafodd swyddogaethau "*the Ministers*", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Cafodd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran yr Alban, eu trosglwyddo i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (p.46) fel y'i darllenir gydag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad, yn ôl Penderfyniad y Cyngor 1999/468 mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad yn ôl y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu– Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).